Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



# Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol: trosolwg o'r tystiolaeth ryngwladol


**Irene Bucelli ac Abigail McKnight**

**Canolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.**



Medi 2022

www.wcpp.org.uk/cy

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i roi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen llunio gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, llunio, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol;
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r modd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a chyflwyno polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn **www.wcpp.org.uk**

## Cyllidwyr Craidd


CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sy'n benderfynol o feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf gan ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| 1. Ansicrwydd bwyd | 8 |
| 2. Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod | 10 |
| 3. Dyled aelwydydd | 12 |
| 4. Cyflenwad tai fforddiadwy | 15 |
| 5. Tlodi tanwydd | 17 |
| 6. Allgáu digidol | 19. |
| 7. Anfantais o ran trafnidiaeth | 21 |
| 8. Gwasanaethau ieuenctid | 23 |
| 9. Camu ymlaen yn y gwaith | 25 |
| 10. Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar | 27 |
| 11. Addysg bellach a sgiliau | 30 |
| 12. Amgylchedd y gymdogaeth | 32 |
| Casgliad | 34 |
| Cyfeiriadau | 36 |

# Crynodeb


- Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn defnyddio, ac yn cyfosod, adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Mae nifer o ffactorau sy'n sbarduno tlodi ac allgáu cymdeithasol ac, felly, nid oes yr un polisi sy'n ddigon i'w lleihau. Yr hyn sydd ei angen yw strategaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â natur amlochrog tlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Mae adolygiad llawn o'r dystiolaeth (a grynhoir yn yr adroddiad trosolwg hwn) yn cwmpasu 12 maes polisi allweddol. Cafodd y detholiad ei lywio gan strwythur damcaniaethol Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM), ymgyngoriadau ag arbenigwyr a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Ni ddylid ystyried y 12 maes polisi yn set gynhwysfawr o bolisïau sy'n ofynnol i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Ar gyfer pob maes polisi, mae'r adroddiad trosolwg hwn yn crynhoi'r dystiolaeth allweddol yng nghyd-destun polisi yng Nghymru, yn amlygu cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol ac yn myfyrio ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael (gan gynnwys cadernid y dystiolaeth sydd ar gael) i wneud nifer o argymhellion polisi (nodi camau gweithredu addawol).
- Yn ystod y broses o asesu tystiolaeth, dewiswyd astudiaethau achos i amlygu rhai o'r canfyddiadau allweddol ymhellach a nodi enghreifftiau o ymyriadau polisi addawol. Roedd bylchau mewn gwybodaeth a diffyg tystiolaeth werthuso gadarn mewn rhai meysydd.
- Down â'r trosolwg hwn i ben drwy nodi pedwar prif ganfyddiad cyffredinol:

   1. Mae cysylltiad sylfaenol rhwng sawl maes polisi, a bydd angen strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â 'ffactorau sbarduno uwch' fel incwm isel.
   2. Ceir bylchau yn y dystiolaeth a thuedd i lunio gwerthusiadau gwan mewn nifer o feysydd polisi.
   3. Gall cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer rhannu data gyfrannu at waith amlasiantaeth, hyrwyddo synergeddau, symleiddio prosesau gweinyddol a sicrhau gwell mynediad at wasanaethau a budd-daliadau.
   4. Mewn nifer o feysydd polisi, mae dulliau cyfranogol yn dod i'r amlwg fel ffordd o wella llwyddiant ymyriadau a rhaglenni.

# Cyflwyniad

Mae tlodi ac allgáu cymdeithasol yn difetha bywydau pawb y maent yn effeithio arnynt. Mae tlodi'n cael effaith negyddol ar amrywiaeth o ganlyniadau, ac mae iddo oblygiadau cymdeithasol sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae nifer o ffactorau sy'n sbarduno tlodi ac allgáu cymdeithasol ac, felly, nid oes yr un polisi yn ddigon i'w lleihau. Yr hyn sydd ei angen yw strategaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â natur amlochrog tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mantais strategaeth yw y gellir manteisio ar y synergeddau rhwng polisïau wrth ddewis cymysgedd o bolisïau, a gall yr effeithiolrwydd cyffredinol fod yn fwy na chyfanswm ei rhannau.

Er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth i Gymru, gwnaethom adolygu tystiolaeth ryngwladol o effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol mewn 12 maes polisi allweddol. Adolygiadau cyflym dan arweiniad arbenigwyr oedd y rhain, yn hytrach nag adolygiadau systematig o'r dystiolaeth. Llywiwyd y detholiad gan strwythur damcaniaethol Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (Levitas et al., 2007), ymgyngoriadau ag arbenigwyr a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae B-SEM yn defnyddio'r diffiniad ymarferol canlynol o allgáu cymdeithasol:

**"Proses gymhleth ac amlddimensiwn yw allgáu cymdeithasol. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gymryd rhan yn y cydberthnasau a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar safon bywyd unigolion yn ogystal â thegwch a chydlyniant cymdeithas gyfan."**
(Levitas et al., 2007, t.9)

Mae'r 12 maes polisi yn cwmpasu'r tri phrif faes (adnoddau, cyfranogiad ac ansawdd bywyd) a 10 is-faes y matrics B-SEM (gweler Ffigur 1), ond ni ddylid ystyried y detholiad terfynol yn hollgynhwysfawr. Ni chafodd rhai meysydd polisi pwysig eu cynnwys am nad ydynt wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Er enghraifft, er bod digonolrwydd nawdd cymdeithasol yn ffactor allweddol sy'n sbarduno tlodi, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau ar hyn o bryd i bennu lefelau budd-daliadau.

Ffactor arall a oedd yn cyfyngu ar y dewis i 12 maes polisi oedd cwmpas ac amserlenni'r prosiect, a oedd yn golygu bod rhai meysydd pwysig wedi'u hepgor (er enghraifft gofal cymdeithasol, gofal iechyd a throseddu). Roedd hyn hefyd yn golygu bod angen nodi ffocws ar gyfer pob un o'r meysydd polisi eang a adolygwyd (er enghraifft y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod ym maes polisi ehangach nawdd cymdeithasol, neu drafnidiaeth gymunedol ym maes polisi anfantais o ran trafnidiaeth). Cytunwyd ar y ffocws rhwng y tîm ymchwil a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), a ymgynghorodd, lle y bo'n berthnasol, ag arbenigwyr sector a pholisi a Llywodraeth Cymru.




Mae pob adolygiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Y cyd-destun Cymreig perthnasol;
- Tystiolaeth o effeithiolrwydd o adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol (a grynhoir yn Ffigur 2);
- Nodi heriau a ffactorau hwyluso (mewn perthynas â rhoi polisi ar waith yn effeithiol);
- Trosglwyddedd i Gymru.

Roedd bylchau mewn gwybodaeth a diffyg tystiolaeth werthuso gadarn mewn rhai meysydd. Mae'r adolygiadau'n tanlinellu hyn ac yn cyflwyno'r math o dystiolaeth a ganfuwyd. Yn ystod y broses o asesu tystiolaeth, dewiswyd astudiaethau achos i amlygu rhai o'r canfyddiadau allweddol ymhellach a nodi enghreifftiau o ymyriadau polisi addawol.

Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn crynhoi'r dystiolaeth allweddol, yn amlygu cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol ac yn myfyrio ar yr holl dystiolaeth i wneud nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r meysydd polisi.


## Ffigur 1. Y meysydd polisi a ddewiswyd wedi'u mapio i is-feysydd B-SEM perthnasol




Ffynhonnell: paratowyd gan yr awduron

Nodiadau: Mae'r ffigwr yn mapio'r 12 maes polisi, a ddangosir ar y chwith, i'r matrics B-SEM: map llinellau bras i'r prif is-barth(au) B-SEM, map llinellau toredig i is-barthau B-SEM eilaidd dethol (mae rhestr lawn o'r is-barthau eilaidd hyn wedi'i chynnwys yn yr adolygiadau penodol).

## Ffigur 2. Crynodeb o gryfder y dystiolaeth a thystiolaeth o effeithiolrwydd ar draws y 12 maes polisi




### Maes polisi

- Ansicrwydd bwyd
- Anfantais o ran trafnidiaeth
- Y nifer sy’n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod
- Gwasanaethau ieuenctid
- Dyled aelwydydd
- Camu ymlaen yn y gwaith
- Cyflenwad tai fforddiadwy
- Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar
- Tlodi tanwydd
- Addysg bellach a sgiliau
- Allgáu digidol
- Amgylchedd y gymdogaeth

### Effeithiolrwydd

- Effeithiol
- Yn debygol o fod yn effeithiol
- Cymysg
- Cyfyngedig

# 1. Ansicrwydd bwyd

Gall diffyg mynediad sefydlog at fwyd fforddiadwy o ansawdd da fod yn niweidiol iawn i amrywiaeth o ganlyniadau, gan ymwreiddio tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae lefelau incwm ac ansefydlogrwydd, yn ogystal ag amlygiad i brofiadau andwyol ac afiechyd, yn gwneud aelwydydd yn fwy agored i ansicrwydd bwyd: mae pobl iau, pobl ag anableddau a phobl ag anghenion cymhleth yn wynebu mwy o risgiau.

Mae banciau bwyd a gwasanaethau yn y gymuned wedi dod yn fwy cyffredin, ond mae eu heffeithiolrwydd yn gyfyngedig ac ni allant ddisodli polisïau sy'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno ansicrwydd bwyd. Gall prydau am ddim neu am bris gostyngol leddfu'r ansicrwydd bwyd a brofir gan blant a'u teuluoedd, ac mae polisïau nawdd cymdeithasol yn allweddol i amddiffyn rhag ysgytwadau personol a macro-economaidd ac i liniaru difrifoldeb ansicrwydd bwyd – ond mae eu rôl amddiffynnol wedi cael ei gwanhau yn ystod y degawd diwethaf.

## Camau gweithredu addawol

1. **Dylai cymorth ar gyfer banciau bwyd ac ymyriadau yn y gymuned (e.e.pantrïau cymunedol, caffis cymunedol, ac ati) gydnabod eu cyfyngiadau** o ran cyrhaeddiad, effaith ar raddfa eang a'r gallu i fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno ansicrwydd bwyd. Mae angen ymyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn i sicrhau bod gan aelwydydd y modd ariannol i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol.
    - Dylai atebion lleol **hyrwyddo cydgysylltiad rhwng gwasanaethau a darparu cymorth amrywiol** (e.e. mewn perthynas â thai, iechyd meddwl, dileu dyled).
    - Yr heriau allweddol i fynd i'r afael â nhw yw: darpariaeth anghyson, diffyg cynaliadwyedd, amseroedd gweithredu cyfyngedig, stigma, meini prawf cymhwysedd cyfyngol, a dewis ac argaeledd cyfyngedig o ran bwyd.
2. Dylid ystyried **ehangu prydau ysgol am ddim** yng ngoleuni tystiolaeth bod darpariaeth gyffredinol yn lleihau stigma ac yn cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y ddarpariaeth. Mae meini prawf cymhwyso cyfyngol yn tanseilio eu rôl o ran gwella cymhellion i weithio ac adnoddau cyffredinol aelwydydd. Gellir gwerthuso dichonoldeb amrywiaeth o gamau gweithredu (yn unigol neu ar y cyd), gan gynnwys:
    - **Diwygio meini prawf cymhwysedd** sy'n eithrio nifer mawr o aelwydydd agored i niwed ar hyn o bryd (e.e. cynnal estyniadau a fabwysiadwyd yn ystod argyfwng y coronafeirws).
    - **Mabwysiadu prydau ysgol am ddim i bawb**, ar gyfer grŵp oedran cyfyngedig, megis yn Lloegr a'r Alban, neu ar gyfer pob plentyn oedran ysgol. Gellid hefyd asesu **datrysiadau ategol seiliedig ar ardal**.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Dyled aelwydydd; Tlodi tanwydd; Anfantais o ran trafnidiaeth; Cyflenwad tai fforddiadwy:** Mae ffactorau sy'n pwyso'n drwm ar adnoddau aelwydydd (fel costau tai, costau tanwydd, dyledion) yn gwaethygu risgiau ansicrwydd bwyd.
- **Amgylchedd y gymdogaeth;** Gall ymyriadau sy'n seiliedig ar le a strategaethau adfywio amharu ar rwydweithiau cymorth anffurfiol sy'n chwarae rôl liniaru bwysig i deuluoedd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Polisïau sy'n ymwneud ag anialwch bwyd a gormodedd bwyd** | Cymysg (cryf o ran yr effaith ar ganlyniadau iechyd, cyfyngedig o ran ansicrwydd bwyd) | Effeithiolrwydd cyfyngedig |
| **Polisïau amddiffyn cymdeithasol (cymorth ariannol, cymorthdaliadau bwyd)** | Cryf | Effeithiol |
| **Banciau bwyd ac ymyriadau yn y gymuned (e.e. 'cypyrddau cymunedol' a 'phantrïoedd')** | Cymysg (prin o ran banciau bwyd, yn fwy cadarn ond yn dal yn gyfyngedig o ran ymyriadau yn y gymuned) | Effeithiolrwydd cyfyngedig |
| **Prydau ysgol am ddim neu am bris gostyngol** | Cryf | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Strategaeth lleihau tlodi rhanbarthol

Yn 2006, rhoddodd talaith Newfoundland a Labrador yng Nghanada strategaeth tlodi ranbarthol newydd ar waith yn cwmpasu polisïau tai, polisi cyflog, a diwygiadau i gymhorthdal incwm (e.e. mwy o haelioni; mynegeio chwyddiant, gwell cymorth gofal plant). Lleihaodd nifer yr achosion o ansicrwydd bwyd yn gyffredinol yn y rhanbarth rhwng 2007 a 2011, yn enwedig ymhlith aelwydydd a oedd yn cael cymorth cymdeithasol. Hyd yn oed pan gododd ansicrwydd bwyd yn gyffredinol yn 2012, parhaodd i leihau ymhlith aelwydydd a oedd yn cael cymorth cymdeithasol, gan awgrymu bod y diwygiadau o dan strategaeth lleihau tlodi'r rhanbarth wedi cael effaith gronnol o ran gwella adnoddau aelwydydd a'u diogelu rhag ansicrwydd bwyd.

### Astudiaeth achos: Darpariaeth Cymhwysedd Cymunedol

Mae Darpariaeth Cymhwysedd Cymunedol (CEP) yn UDA yn caniatáu i ysgolion weini brecwast a chinio am ddim i bob disgybl. Gall ysgolion neu ardaloedd ddewis ymuno â CEP os nodir bod 40% neu fwy o ddisgyblion yn 'gymwys' (e.e. yn seiliedig ar gyfraddau hawlio budd-daliadau lles). Caiff prydau ysgol eu had-dalu ar gyfradd 'am ddim' neu 'am dâl' is yn seiliedig ar ganran y disgyblion cymwys. Dangoswyd bod CEP yn gwella cyfraddau cyfranogiad yn y Rhaglen Cinio Ysgol Genedlaethol a'r Rhaglen Brecwast Ysgol Genedlaethol yn sylweddol, ac mae'n gysylltiedig â llai o ansicrwydd bwyd ymhlith disgyblion, gan gynnwys disgyblion anghymwys, sy'n dangos bod y rhaglen wedi cynyddu sicrwydd bwyd i'r rheini y gallai fod wedi bod angen cymorth arnynt ond y cawsant eu colli gan y meini prawf cymhwysedd.

# 2. Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod

Mae nawdd cymdeithasol yn faes polisi allweddol ond mae rhai agweddau pwysig iawn y tu hwnt i gylch gwaith pwerau Llywodraeth Cymru. Gall ymyriadau a gynlluniwyd i gynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r eithaf a mynd i'r afael â rhwystrau unigol i fanteisio ar y cymorth hwn (e.e. stigma, gwybodaeth, costau canfyddedig) a ffactorau gweinyddol/sy'n gysylltiedig â chynllun (e.e. cymhlethdod, lefel y cymorth). Mae gwell dealltwriaeth o nifer y rhai sy'n manteisio ar gymorth ar hyn o bryd a'r gwaith o ddatblygu strategaethau gwerthuso cadarn yn hanfodol. Gall 'pasbortio' budd-daliadau (e.e. drwy groesgofrestru symlach neu awtomataidd) gynyddu nifer y rhai sy'n eu hawlio a gellid cymhwyso hyn at rai budd-daliadau datganoledig. Gall atebion o'r fath weithredu ar y cyd ag ymyriadau lleol sy'n fwy addas i feithrin gwybodaeth leol a mabwysiadu gweithgareddau allgymorth rhagweithiol addas, a gallant ddarparu cymorth effeithiol i aelwydydd sy'n arbennig o agored i niwed.

## Camau gweithredu addawol

1. **Mae awtomeiddio** (gweler Astudiaeth Achos 1) yn effeithiol o ran cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y cymorth, gan leihau'r perygl o ymrannu, gan sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu. Gall hwyluso'r broses hawlio fynd i'r afael â rhwystrau pwysig i fanteisio ar y cymorth, megis anegni, diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac, o bosibl, stigma. Dylai'r blaenoriaethau gynnwys y canlynol:
   - **Archwilio trefniadau rhannu data presennol a gwerthuso synergeddau posibl** er mwyn nodi cyfleoedd i awtomeiddio.
     - Gellir dysgu gwersi defnyddiol o fenter yr Alban i gysylltu nifer o grantiau datganoledig â chofnodion Budd-dal Tai neu Ostyngiadau'r Dreth Gyngor.
   - **Rhaid cynnig llwybrau hawlio amgen** er mwyn cywiro gwallau gweinyddol posibl a lleihau'r risg o eithrio hawlwyr.
     - Dylid asesu a yw systemau awtomataidd yn cynyddu 'symlrwydd', gan na ellir cymryd hyn yn ganiataol. Mae tystiolaeth nad yw symlrwydd gweinyddol yn aml yn golygu symlrwydd i'r sawl sy'n hawlio. **Gall tystiolaeth o brofiad ymarferol hawlwyr a gweinyddwyr gynnig dealltwriaeth.**
2. Gall mentrau lleol ymgorffori amrywiaeth o ymyriadau, o ddarparu gwybodaeth i gyngor a chymorth wrth hawlio. Mae partneriaethau â mudiadau cymdeithas sifil yn ysgogi cydberthnasau sefydledig o ymddiriedaeth, a all fod yn hanfodol i gyrraedd a chynorthwyo'r hawlwyr mwyaf agored i niwed a rhoi cyfrif am agweddau a normau sy'n gysylltiedig â stigma (gweler Astudiaeth Achos 2). Fodd bynnag, nid oes gan y mathau hyn o raglenni brosesau gwerthuso cadarn yn aml. **Dylai proses werthuso ystyried y canlynol:**
   - Pa elfennau penodol o'r mentrau sy'n gweithio;
   - I bwy y maent yn gweithio (sy'n arbennig o bwysig i nodi grwpiau 'a adawyd ar ôl' a datblygu strategaethau digonol i'w cyrraedd);
   - A yw'r fenter wedi sicrhau manteision y tu hwnt i'r boblogaeth darged;
   - I ba raddau y ceir difuddiant;
   - Canlyniadau (e.e. cyfraddau manteisio gwell) yn hytrach na dangosyddion allbwn yn unig (e.e. mwy o gysylltiadau gwasanaeth).

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Allgáu digidol:** Mae digideiddio'r ddarpariaeth nawdd cymdeithasol yn gynyddol yn golygu bod gwella cynhwysiant digidol yn flaenoriaeth ochr yn ochr â darparu dewisiadau amgen addas i'r rhai a all elwa ar wasanaethau personol wyneb yn wyneb.
- **Dyled aelwydydd; Ansicrwydd bwyd; Tlodi tanwydd:** Gall rhaglenni lleol sy'n integreiddio nifer o wasanaethau gyflawni amrywiaeth o ddibenion ynghyd â hawlio cymorth (e.e. cyngor ar ddyledion, rheoli ynni ac ati).

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Pasbortio ac awtomeiddio** | Cryf | Effeithiol |
| **Dulliau lleol, integredig** | Gwerthusiad gwan ar y cyfan | Yn debygol o fod yn effeithiol |
| **Darparu gwybodaeth** | Cryf | Cymysg |
| **Cymorth gyda'r broses hawlio** | Cryf<br>**noder. gan gynnwys tystiolaeth o ganlyniadau sy'n deillio o ddiffyg cymorth* | Effeithiol |
| **Meithrin partneriaethau** | Tystiolaeth dda o'u rôl, llai ar ganlyniadau uniongyrchol | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: 'Formulierenbrigades' yn yr Iseldiroedd

Gwasanaethau trefol yn yr Iseldiroedd yw 'brigadau ffurflenni' (formulierenbrigades) sy'n hysbysu pobl am eu hawliau i gael budd-daliadau ac yn rhoi cymorth a chyngor ymarferol i lenwi ffurflenni cais. Maent yn cynnwys staff cyflogedig yn ogystal â gwirfoddolwyr hyfforddedig ac yn defnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau allgymorth i ymgysylltu â hawlwyr posibl a rhoi cymorth personol. Nid yw gwerthusiadau wedi canolbwyntio'n benodol ar gyfraddau hawlio ond, yn hytrach, maent yn dangos sut y rhoddir cyngor a chymorth ariannol ehangach a all hefyd arwain at nodi rhwystrau i hawlio yn well.

### Astudiaeth achos: Atodiad Incwm Gwarantedig yng Nghanada

Mae'r rhan fwyaf o Ganadiaid dros 65 oed yn gymwys i gael pensiwn Diogelwch yr Henoed (OAS). Budd-dal ychwanegol nad yw'n drethadwy yw'r Atodiad Incwm Gwarantedig (GIS), a roddir i ddwy filiwn o bensiynwyr incwm isel. Amlygodd llawer o astudiaethau bryderon ynghylch cyfraddau hawlio GIS. Cyflwynwyd cofrestru awtomatig ar gyfer OAS yn 2012, ac yn 2017 cafodd hyn ei ehangu i GIS ar gyfer ymgeiswyr OAS newydd cymwys, fel rhan o strategaeth ehangach i sicrhau bod pobl o grwpiau agored i niwed yn cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod cofrestru awtomatig wedi cynyddu cyfraddau cyfranogiad ymhlith y rhai sy'n gymwys i gael GIS.

# 3. Dyled aelwydydd

Felly, mae cymryd camau i liniaru, atal ac adsefydlu mewn perthynas â dyled aelwydydd yn bwysig yng ngoleuni'r cynnydd diweddar mewn dyledion problemus ymhlith aelwydydd incwm isel, a rôl dyled o ran gwreiddio tlodi ac effeithio ar sawl agwedd ar allgáu cymdeithasol. Nid yw dulliau cyffredin o fynd i'r afael â dyled aelwydydd (e.e. cyngor ar ddyledion a dileu dyled, rheoleiddio a gwell mynediad at gyfleoedd credyd cost isel, hybu llythrennedd a galluogrwydd ariannol, a pholisïau lles sy'n seiliedig ar asedau) yn ymdrin i raddau helaeth â'r achosion sylfaenol sy'n sbarduno'r galw am fenthyciadau ymhlith aelwydydd incwm isel (sef incwm isel). Felly, ni ellir eu hystyried yn fwledi arian i wrthdroi'r tueddiadau hyn. Fodd bynnag, bydd angen i strategaeth cynhwysiant ariannol integredig cyfannol gynnwys yr holl elfennau hyn, a'u hystyried ar y cyd ag elfennau eraill sy'n berthnasol i adnoddau ariannol aelwydydd a'u rhyngweithio â'r system nawdd cymdeithasol.

## Camau gweithredu addawol

- **Dylai dull sy'n mynd i'r afael ag achosion dyled aelwydydd** fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cysylltiad cyd-atgyfnerthol rhwng tlodi a dyled.
- Dylid ystyried strategaethau i gynyddu incwm gwario a lleihau gwariant (e.e. cost gofal plant, bwyd, tanwydd, trafnidiaeth, tai) er mwyn **cynyddu adnoddau aelwydydd**.
- **Mae diwygio'r dreth gyngor** yn arbennig o bwysig yng ngoleuni nodweddion atchwel y system gyfredol a'r rôl allweddol y mae ôl-ddyledion o'r math hwn yn ei chwarae o ran achosi dyled.
- Er bod hyn y tu hwnt i gylch gwaith pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, mae achos cryf dros alw am **newidiadau i gynllun Credyd Cynhwysol a'i system o ôl-daliadau ac ad-dalu blaendaliadau.**

3. Mae mesurau lliniaru ac adsefydlu yn bwysig er mwyn rhoi dechrau newydd a lliniaru effeithiau negyddol dyled ar iechyd a lles.

- **Gall mwy o gydgysylltu rhwng gwasanaethau cyngor ar ddyledion ac asiantaethau** a gwasanaethau eraill helpu i nodi aelwydydd sydd mewn perygl o ddyledusrwydd a hwyluso ymyrraeth gynnar. Gall gwasanaethau cyngor ar ddyledion hefyd fod yn bwynt cyswllt a sbarduno amrywiaeth o atgyfeiriadau at wasanaethau priodol. Dylid gwerthuso cyfleoedd rhannu data.
- **Gall gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau cyngor ar ddyledion a dileu dyled** fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth o ddulliau datrys dyledion. Gall hyn gryfhau diogelwch defnyddwyr ac atal dyledwyr rhag gwneud trefniadau anaddas.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Allgáu digidol:** Gall cynhwysiant digidol hybu llythrennedd a gallu ariannol a hwyluso mynediad at gymorth a chyngor ar ddyledion.
- **Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod:** Gallai rhannu data rhwng sefydliadau llywodraeth leol gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- **Anfantais o ran trafnidiaeth; Ansicrwydd bwyd; Tlodi tanwydd; Cyflenwad tai fforddiadwy; Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar; Allgáu digidol:** Mae dyledion yn amlhaenog ac mae llawer o aelwydydd (nid y rhai tlotaf yn unig) yn agored i broblemau dyled oherwydd yr amrywiaeth o alwadau croestoriadol ar eu hadnoddau (e.e. trafnidiaeth, ynni, bwyd, mynediad i dechnoleg ddigidol, tai, gofal plant).

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Llythrennedd ariannol** | Cryf | Effeithiol – Llythrennedd ariannol ar ymddygiadau ariannol Cymysg – Addysg ariannol ar lythrennedd ac ymddygiadau |
| **Polisïau lles sy'n seiliedig ar asedau** | Cryf | Cymysg |
| **Gwasanaethau cyngor ar ddyledion** | Da | Effeithiol |
| **Gwasanaethau dileu dyled** | Gwan (Mae gwerthusiadau cadarn yn brin) | Effeithiol |
| **Mynediad at gyfleoedd credyd** | Gwerthusiadau gwan o gynhyrchion ariannol amgen | Effeithiolrwydd cyfyngedig (Gallu cyrraedd cyfran ymylol o'r boblogaeth) |

## Astudiaeth achos: Datblygiadau o ran datrys dyledion yn Ewrop

Nid yw llawer o ddulliau arloesol o ddileu a setlo dyledion wedi'u gwerthuso'n gadarn eto, ond maent yn addawol oherwydd eu potensial i fynd i ddiwallu anghenion grwpiau penodol sydd mewn perygl. Yn Sweden, mae gweithdrefnau setlo dyledion wedi'u cyfuno ag diogelwch cryfach i blant yn yr aelwyd, e.e. gydag amserlenni talu wedi'u haddasu ar gyfer yr aelwydydd hyn, gan gynnwys deufis o randaliadau am ddim. Mae mentrau eraill yn defnyddio systemau rhagweithiol a all helpu i ymyrryd yn gynnar – er enghraifft drwy atgyfeiriadau at wasanaethau cyhoeddus neu gydweithio â phartneriaid cymdeithasol (e.e. undebau llafur, cyflogwyr) a gwasanaethau cynghori sy'n cysylltu'n rhagweithiol â chleientiaid posibl (e.e. o ran biliau cyfleustodau neu rent tai cymdeithasol yn yr Iseldiroedd).

## Astudiaeth achos: Cynlluniau benthyciadau di-log

Y Cynllun Benthyciadau Di-log (NILS) yw'r rhaglen microgyllid fwyaf yn Awstralia sy'n helpu pobl ar incwm isel i brynu nwyddau a gwasanaethau hanfodol ar gyfer y cartref. Mae NILS yn cynnwys rhwydwaith o fwy na 600 o sefydliadau cymunedol (e.e. canolfannau ieuenctid; llochesi, eglwysi). Mae NILS yn enghraifft o gredyd cymunedol cylchol: bob tro y ceir ad-daliad, trefnir bod yr arian ar gael i rywun arall yn y gymuned. Dangosodd gwerthusiadau o NILS effeithiau cadarnhaol ar amrywiaeth o ganlyniadau iechyd a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â gwell gallu ariannol a llai o ddibyniaeth ar fenthyciadau diwrnod cyflog. Mae beirniaid wedi pwysleisio bod y gwerthusiadau'n cynnwys gwendidau cynllunio ac er bod cymorthdaliadau a rheoleiddio ffafriol wedi cefnogi twf y sector, ni allant gymryd lle diogelwch cymdeithasol digonol, yn enwedig gan fod annigonolrwydd yn ffactor allweddol sy'n sbarduno tlodi ac, yn ei dro, y galw mawr am gredyd.



# 4. Cyflenwad tai fforddiadwy

Gall tai chwarae rhan bwysig wrth atal a lleddfu tlodi, ond gallant hefyd atgynhyrchu a gwaethygu'r anfantais bresennol. Mae eu heffaith ar dlodi yn dibynnu ar sut mae'r system dai yn llywio argaeledd, cost, ansawdd, lleoliad a sicrwydd llety.

Mae system y DU wedi blaenoriaethu perchentyaeth a buddsoddiad cyhoeddus ar ochr y galw, tra bod crebachiad y sector rhentu cymdeithasol yn tanseilio'r hyn a oedd unwaith yn elfen effeithiol iawn o'r wladwriaeth les. Mae'r system hefyd yn cynyddu gwahanu gofodol, gan effeithio ar sawl agwedd ar allgáu cymdeithasol.

Mae darparu tai gwirioneddol fforddiadwy wedi cael ei ddiogelu’n fwy yng Nghymru nag yn Lloegr, ond mae cyfleoedd i Gymru wella’r ddarpariaeth. Gellir dysgu gwersi o wledydd eraill yn Ewrop, lle mae'r sector rhentu cymdeithasol yn cystadlu â'r sector rhentu preifat, gan greu system 'fforddiadwyedd ehangach' sy'n annog safonau uwch ac yn ffrwyno costau tai gormodol. Felly, gallai cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy nid yn unig sicrhau enillion tymor byr, ond hefyd wella fforddiadwyedd tai yn y tymor hir a lleihau ansefydlogrwydd y farchnad dai.

## Camau gweithredu addawol

Daw'r adran hon i ben gyda **chamau gweithredu addawol** i'w hystyried yng nghyd-destun Cymru fel rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol.

1. **Dylid rhoi blaenoriaeth i hybu darpariaeth tai cymdeithasol sy'n wirioneddol fforddiadwy, sicr ac o ansawdd uchel.**
   - Mae prinder tai cymdeithasol yn arwain at fathau o ddogni, yn cynyddu’r gystadleuaeth am gartrefi ac yn cynyddu costau yn y sector preifat.
   - Gall atebion tymor byr sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol arwain at **newid systemig hirdymor, gan greu'r amodau sydd eu hangen er mwyn i'r system gynyddu 'fforddiadwyedd ehangach'.**
     - Ceir tystiolaeth bod systemau sy'n hyrwyddo fforddiadwyedd ehangach ar draws y system dai yn lleihau costau ac ansefydlogrwydd, yn cynyddu safonau ansawdd ac yn lleihau gwahanu.
2. **Gall hyrwyddo rheoleiddio, safonau ansawdd a diogelu tenantiaid yn y sector rhentu preifat** hyrwyddo mwy o fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat a chyfrannu at system fforddiadwyedd ehangach.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Tlodi tanwydd:** Mae cysylltiad agos rhwng fforddiadwyedd ehangach tai a'u heffeithlonrwydd ynni.
- **Anfantais o ran trafnidiaeth:** Dylai dealltwriaeth gyfannol o fforddiadwyedd ystyried lleoliad tai a mynediad at drafnidiaeth, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol. Mae angen cydweithredu rhwng y sector tai a thrafnidiaeth i osgoi cyfaddawdu rhwng fforddiadwyedd tai a fforddiadwyedd trafnidiaeth a all danseilio ymdrechion i drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol.
- **Ansicrwydd bwyd; Allgáu digidol; Dyled aelwydydd:** Mae costau tai yn cael effaith sylweddol ar adnoddau aelwydydd, gan effeithio ar wariant ar hanfodion eraill yn ogystal â’r perygl o fynd i ddyled.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Polisïau sy'n cefnogi 'model deuolaidd'** (e.e. hybu perchentyaeth; cyfyngu ar fynediad at dai cymdeithasol) | Da | Effeithiolrwydd cyfyngedig (yn gysylltiedig â swyddogaeth rhwyd ddiogelwch lai mewn sector cymdeithasol sy'n crebachu) |
| **Polisïau sy'n cefnogi 'model marchnad gymdeithasol'** (e.e. rheoleiddio a chymorthdalu'r sector rhentu preifat; ehangu mynediad at dai cymdeithasol) | Da | Effeithiol (ond yn heriol i'w gweithredu mewn cyd-destunau a nodweddir gan lefelau uchel o dlodi ac anghydraddoldeb) |

### Astudiaeth achos: Systemau 'marchnad gymdeithasol' yn Ewrop

Nodweddir systemau marchnad gymdeithasol mewn gwledydd canol Ewrop a Nordig (yr Almaen, Awstria, y Swistir, Denmarc, yr Iseldiroedd a Sweden) gan gyfrannau mawr o dai sydd ar osod am renti islaw cyfradd y farchnad, yn aml gan landlordiaid nad ydynt yn rhai gwladwriaethol, sefydliadau di-elw ac weithiau'n eiddo i awdurdodau lleol yn rhannol. Mae'r marchnadoedd rhentu integredig hyn (lle mae llai o wahaniaeth rhwng rhentu preifat a chymdeithasol) yn gweld rhentu cymdeithasol yn cystadlu am denantiaid yn erbyn landlordiaid elw, gan arwain at ostyngiad mewn rhenti gwirioneddol a rhestrau aros hirfaith am dai rhent cymdeithasol, sy'n ysgogi cynnydd yn y cyflenwad. Mae anheddau o ansawdd da, rhenti fforddiadwy a sicrwydd deiliadaeth digonol yn denu grŵp eang, gan gynnwys aelwydydd mwy cefnog, ac yn lleihau arwahanu.

### Astudiaeth achos: Cynlluniau rhent cost yn Iwerddon

Mae cynllun rhent cost wedi cael ei dreialu yn Iwerddon ers 2019. Mae'n cynnig tai di-elw, deiliadaeth sicr, hirdymor gyda rhenti a godir i dalu am y costau a ysgwyddir wrth ddarparu, rheoli a chynnal cartrefi yn unig. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, bydd angen rhyw fath o gymhorthdal i ddarparwyr fel arfer, e.e. darparu cyllid cost isel, mynediad ffafraethol i dir a gwarantau benthyciadau. Mae asesiad yr OECD o’r math hwn o ddull sy’n seiliedig ar gostau yn dangos ei gryfderau a’i wendidau o ran ei effaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol. Ar y naill law, gall wella cynaliadwyedd y sector drwy ystyried costau gwirioneddol datblygu, gweithredu a chynnal y stoc, a gall fod yn elfen o fodel 'fforddiadwyedd ehangach' drwy nodi costau gwirioneddol a llywio’r broses o ffurfio prisiau yn y farchnad rhentu preifat. (Efallai y bydd angen i bolisïau i leihau cost tir fod ar waith pan fydd prisiau tir yn uchel.) Ar y llaw arall, efallai na fydd yn rhoi dewis amgen fforddiadwy gwirioneddol gan nad yw’r rhenti'n adlewyrchu gallu effeithiol aelwydydd i dalu.

# 5. Tlodi tanwydd

Mae tlodi tanwydd, neu dlodi ynni, yn agwedd benodol ar dlodi sy'n ymwneud â gallu aelwydydd incwm is i ddiwallu anghenion ynni’r aelwyd. Mae aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn wynebu penderfyniadau anodd o ran sut i dalu am gostau ynni neu sut i ymdopi â lefelau annigonol o ddefnydd ynni, gyda rhai'n gorfod dewis rhwng 'bwyta a gwresogi'. Mae risgiau iechyd hysbys yn gysylltiedig â thlodi tanwydd, ynghyd ag effeithiau negyddol ar les a chynhwysiant. Bydd mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn fuddiol nid yn unig i’r aelwydydd yr effeithir arnynt, ond gallai hefyd arwain at fanteision ehangach yn sgil allyriadau carbon is.

Mae'r ffaith nad oes diffiniad cytunedig o dlodi tanwydd yn creu rhai heriau wrth adolygu'r dystiolaeth ryngwladol yn y maes hwn ac mae diffiniadau a mesurau gwahanol yn llywio'r ymateb polisi. Cytunir yn gyffredinol mai’r ffactorau sy’n sbarduno tlodi tanwydd yw effeithlonrwydd ynni isel mewn cartrefi, prisiau ynni uchel ac incwm isel. Yn ogystal, mae ymddygiad aelwydydd yn allweddol i ddeall sut mae aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd yn ymdopi, pa mor barod ydynt i dderbyn mesurau gwahanol a sut y maent yn ymateb i ymyriadau.

## Camau gweithredu addawol

1. **Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref**, yn enwedig yn y stoc tai rhent presennol, lle mae cyfraddau tlodi tanwydd ar eu huchaf, yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â risgiau hirdymor tlodi tanwydd. Mae opsiynau ar gael i oresgyn y broblem o ran cymhelliad hollt (e.e. drwy grantiau a modelau ariannu talu-wrth-arbed).
2. Mae gwelliannau **effeithlonrwydd ynni** a ariennir drwy drethiant cyffredinol yn llai tebygol o arwain at gostau ynni uwch sy'n cael effaith negyddol ar aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, mae cynlluniau ariannu talu-wrth-arbed, megis y rhai a ddarperir gan Gwmnïau Cyflenwi Ynni (ESCOs), yn cynnig dull addawol a all sicrhau cyllid pwysig ochr yn ochr â chyflawni gwelliannau arbed ynni (gan gynnwys ôl-osod).
3. Gall **archwiliadau ynni** helpu i ennyn newidiadau ymddygiadol cadarnhaol mewn perthynas â’r defnydd o ynni. Gall helpu aelwydydd i ddefnyddio ynni a dyfeisiau arbed ynni yn effeithlon helpu i ostwng biliau ynni.
4. Un o’r prif ffactorau sy’n sbarduno tlodi tanwydd yw incwm isel, ac mae angen i unrhyw strategaeth i leihau tlodi tanwydd fynd i'r afael â'r sbardun hwn. Gall **cymorth ariannol** targededig fod ar ffurf taliadau nawdd cymdeithasol 'wedi'u labelu' neu gymorth gyda biliau ynni. Mae angen mwy o dystiolaeth werthuso i asesu pa un yw'r mwyaf effeithiol o ran lleihau tlodi tanwydd.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Ansicrwydd bwyd:** Mae tlodi tanwydd ac ansicrwydd bwyd yn cydfodoli’n aml oherwydd bod aelwydydd sy'n wynebu costau ynni uchel o gymharu ag incwm yn gallu wynebu’r dewis anodd rhwng 'bwyta neu wresogi'.
- **Dyled aelwydydd:** Mae perygl i aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd gronni lefelau uchel o ddyled, gan gynnwys cronni ôl-ddyledion, wrth iddynt ei chael hi’n anodd talu am gostau ynni o’u hincwm.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref** | Da | Effeithiol (mae'n bwysig nad ydynt yn arwain at brisiau ynni uwch) |
| **Prisiau ynni** | Gwan (ychydig o dystiolaeth ryngwladol o effeithiolrwydd dulliau gwahanol) | Effeithiol (er bod y sylfaen dystiolaeth yn wan, bydd lleihau prisiau ynni ar gyfer aelwydydd incwm isel yn lleihau tlodi tanwydd) |
| **Cymorth ariannol gyda chostau ynni** | Gwan | Addawol (mae'n amlwg yn sbardun polisi pwysig ond ychydig o dystiolaeth werthuso sy'n bodoli o'r effaith ar dlodi tanwydd) |
| **Ymddygiad** | Da | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Archwiliadau ynni – Stromspar-Check

- Mae rhaglen Stromspar-Check yn darparu archwiliadau ynni am ddim i aelwydydd incwm isel gan 'Archwilwyr Effeithlonrwydd Ynni' ('Cynorthwywyr Arbed Ynni') sy'n dod o blith y di-waith a'r rhai sydd wedi'u hyfforddi. Ariennir y cynllun cenedlaethol hwn gan lywodraeth yr Almaen. Y nod yw lleihau costau ynni mewn aelwydydd incwm isel. Yn ogystal â darparu cyngor, gellir cyflenwi dyfeisiau arbed ynni a dŵr i aelwydydd mewn angen. Mae'r rhaglen wedi arwain at arbedion ynni hirdymor, a chanfuwyd bod newid ymddygiad cyn bwysiced o leiaf â gosod dyfeisiau arbed ynni a dŵr.

### Astudiaeth achos: Goresgyn cyfyng-gyngor cymhellion hollt

Mae cyfraddau tlodi tanwydd ar eu huchaf yn gyffredinol ymhlith cartrefi rhent. Her fawr i wella effeithlonrwydd ynni mewn llety rhent preifat yw'r hyn a elwir yn gyfyng gyngor perchennog-denant neu gymhelliad hollt. Mae hyn yn codi am fod landlordiaid (perchenogion eiddo) yn gyfrifol am dalu am waith uwchraddio effeithlonrwydd ynni mawr ond nad ydynt yn gallu adennill yr arbedion sy'n cronni i denantiaid drwy filiau ynni is. Yn yr Iseldiroedd caiff rhenti tai cymdeithasol eu rheoleiddio. Mae newid diweddar wedi caniatáu i renti godi a gyfer eiddo mwy ynni-effeithlon. Mae hyn yn annog corfforaethau tai i fuddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni ac mae'n datrys y broblem o ran cymhelliant hollt. Opsiwn arall nad yw'n cynnwys rhenti uwch yw i gyflenwyr ynni a buddiolwyr rannu'r arbedion sy'n deillio o welliannau effeithlonrwydd ynni, a ariennir i ddechrau gan y cyflenwr, nes y caiff cost y buddsoddiad ei had-dalu. Gallai hyn fod ar ffurf model cyllid talu-wrth-arbed. Er bod diffyg gwerthusiadau cadarn o'u heffaith ar dlodi tanwydd, mae mynd i'r afael â'r cyfyng-gyngor cymhellion hollt yn ddull addawol o wella effeithlonrwydd ynni mewn eiddo rhent.

# 6. Allgáu digidol

Mae cynhwysiant digidol yn hwyluso mynediad at wasanaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd, cyflogaeth, addysg a thai. Felly, gall allgáu digidol, neu hyd yn oed fynediad rhannol i'r byd digidol, fod yn ffynhonnell anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol, yn enwedig wrth i ddigideiddio gynyddu ac wrth i gymdeithasau ddod yn fwy dibynnol ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Mae allgáu digidol yn llesteirio gallu pobl i feithrin cydberthnasau cymdeithasol a chymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas. Mae cysylltiadau cryf rhwng allgáu cymdeithasol ac allgáu digidol wedi'u sefydlu ers tro. Mae allgáu digidol wedi'i ganoli mewn grwpiau sy'n agored i niwed ac mae tystiolaeth bod allgáu cymdeithasol ac anfantais economaidd wedi dod yn benderfynyddion cryfach mewn perthynas ag ymddieithrio digidol. Pryder mwy diweddar yw'r 'rhaniad digidol trydedd lefel' sy'n canolbwyntio ar wahaniaethau o ran buddiannau defnyddio'r rhyngrwyd a bylchau yng ngallu unigolion i drosi eu mynediad i'r rhyngrwyd a'u defnydd ohoni yn ganlyniadau ffafriol.

Mae diffyg tystiolaeth werthuso gadarn ar bolisïau i leihau allgáu digidol yn y llenyddiaeth ryngwladol yn ei gwneud yn anodd nodi'r 'hyn sy'n gweithio' yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae arwyddion clir bod angen i bolisïau fynd i'r afael â mynediad corfforol i TGCh, tlodi data a llythrennedd digidol. Heb wella cynhwysiant digidol mewn byd sy'n gynyddol ddigidol, bydd y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu gwthio fwyfwy i'r ymylon a'u gadael ar ôl.

## Camau gweithredu addawol

1. **Mynediad i ddyfeisiau a chysylltedd**
   - Er bod fforddiadwyedd yn elfen allweddol mewn perthynas â mynediad, a bod defnydd digidol yn sensitif i bris, mae rhaglenni llwyddiannus yn gofyn am ddull cyfannol, ac mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael ag agweddau eraill sy'n gysylltiedig â chymhelliant, sgiliau a hyfforddiant.
   - Mae gwahaniaethau o ran defnydd hefyd yn cael eu llywio gan berthnasedd canfyddedig i anghenion defnyddwyr, na all hygyrchedd digidol yn unig eu newid.
2. Gall **rhaglenni llythrennedd digidol** leihau allgáu digidol. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth werthuso o ansawdd uchel i helpu i lywio'r 'hyn sy'n gweithio'. Mae angen mynd i'r afael â rhwystrau ysgogol ac mae rhaglenni llythrennedd yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus o'u cysylltu ag angen clir.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod:** Mae digideiddio'r ddarpariaeth les yn gynyddol yn golygu bod gwella cynhwysiant digidol yn flaenoriaeth.
- **Tlodi tanwydd:** Mae cynhwysiant digidol yn helpu aelwydydd i sicrhau'r prisiau ynni gorau drwy gymharu bargeinion gwahanol a'i gwneud yn haws newid darparwyr.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Mynediad i ddyfeisiau a chysylltedd** | Da | Yn debygol o fod yn effeithiol (ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cymorthdaliadau band eang yn cynyddu defnydd mewn aelwydydd incwm isel ond mae angen mynd i'r afael â rhwystrau eraill hefyd) |
| **Llythrennedd digidol** | Elfennau da, ond gwan (er enghraifft, nodi'r hyn sy'n gweithio o ran cynllun y cwrs) | Yn debygol o fod yn effeithiol (yn enwedig pan fydd cyrsiau'n gysylltiedig ag angen penodol) |

### Astudiaeth achos: Cynyddu cyfraddau mabwysiadu band eang

Yn yr Unol Daleithiau, mae'r Comisiwn Cyfathrebu Ffederal yn rheoli'r 'Gronfa Gwasanaeth Cyffredinol' a'r Rhaglen Lifeline, sy'n cynnig cymorthdaliadau i gynyddu fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu uwch, gan gynnwys mynediad i fand eang. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi mynediad a fforddiadwyedd mewn cymunedau gwledig ac incwm isel. Cymysg yw'r dystiolaeth bod y rhaglen Lifeline wedi cynyddu cyfraddau mabwysiadu. Canfu rhai gwerthusiadau cychwynnol gyfraddau cyfranogiad gwahanol ar draws cynlluniau peilot, ynghyd â ffafriaeth i gynlluniau cyflymder is, ac ychydig o ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn dosbarthiadau hyfforddiant llythrennedd digidol a gynigiwyd ar y cyd â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod Lifeline wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ansawdd gwasanaethau (gorlenwi gwasanaethau o ansawdd is nad ydynt yn cael cymhorthdal) ac ar wariant parod aelwydydd.

### Astudiaeth achos: Dulliau cyfranogol

Gall dulliau cyfranogol helpu i gynnwys safbwyntiau defnyddwyr difreintiedig mewn ymyriadau i fynd i'r afael ag allgáu digidol drwy nodi rhwystrau i gynhwysiant a llunio polisïau sy'n berthnasol i anghenion pobl. Mae enghreifftiau diweddar o ddulliau cyfranogol yn cynnwys y rheini a fabwysiadwyd i lywio'r gwaith o gynllunio 'dinasoedd clyfar' yn Ewrop – dinasoedd lle mae TGCh yn ganolog i wella gwasanaethau a threfoli. Mae datblygiad 'symudedd clyfar' yn ninas-ranbarth Brwsel yn enghraifft o'r fath. Mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth werthuso o ansawdd uchel sydd wedi'i chyhoeddi i asesu effaith y dulliau hyn.

# 7. Anfantais o ran trafnidiaeth

Mae mynediad gwael at drafnidiaeth neu ddiffyg mynediad at drafnidiaeth yn cynyddu'r risg o dlodi ac allgáu cymdeithasol, a hynny oherwydd bod yr elfennau hyn yn cyfyngu ar y gallu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant. Maent hefyd yn cyfyngu ar y gallu i gydbwyso cyfrifoldebau gofalu ag ymrwymiadau gwaith, i fwynhau bywyd cymdeithasol, ac i dreulio amser gyda theulu ehangach. Mae anfantais o ran trafnidiaeth yn cael effaith negyddol ar fywoliaeth, cyfranogiad, ac ansawdd bywyd cyffredinol y rheini yr effeithir arnynt. Mae'n uwch ymhlith aelwydydd incwm is ac mewn cymunedau gwledig, a gall arwain at gylch cythreulig o anfantais.

Er mwyn mynd i'r afael ag anfantais o ran trafnidiaeth, mae angen i bolisïau ganolbwyntio ar ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio mathau gwahanol o ddarpariaeth. Mae angen mynd i'r afael ag argaeledd, fforddiadwyedd a hygyrchedd trafnidiaeth. Er mai dim ond un elfen fach o'r system drafnidiaeth yw trafnidiaeth gymunedol, gall chwarae rôl allweddol mewn perthynas â lleihau anfantais o ran trafnidiaeth ymhlith rhai grwpiau. Fodd bynnag, mae trafnidiaeth gymunedol yn dameidiog, ac oherwydd bod ei gwir werth cymdeithasol yn anodd ei amcangyfrif, mae hyn yn cyfrannu at danfuddsoddi. Gall datblygiadau technolegol wella effeithlonrwydd, a gallai profiad defnyddwyr a buddsoddiad mewn cerbydau effeithlon o ran tanwydd helpu i gyrraedd targedau lleihau allyriadau carbon.

## Camau gweithredu addawol

1. **Mae cynyddu darpariaeth trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn cynnig mwy o hyblygrwydd na llwybrau/amserlenni sefydlog**. Fodd bynnag, gall allgáu digidol olygu na all pawb fanteisio ar y math hwn o ddarpariaeth.
2. Gall defnyddio **cerbydau gwyrdd,** boed ar gyfer trafnidiaeth gymunedol, trafnidiaeth a rennir neu, yn fwy cyffredinol, ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, helpu i leihau allyriadau carbon a llygredd.
3. Gall **systemau trafnidiaeth cyflawn** helpu i fynd i'r afael â systemau tameidiog a gwella'r broses o integreiddio trafnidiaeth gymunedol, trafnidiaeth a rennir a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw.
4. Gallai canolbwyntio ar amcangyfrif **gwerth cymdeithasol trafnidiaeth gymunedol,** yn hytrach nag ar asesiadau meintiol culach (e.e. nifer y siwrneiau neu deithwyr) gynyddu buddsoddiad yn unol ag effaith.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Camu ymlaen yn y gwaith; Addysg bellach a sgiliau; Cyflenwad tai fforddiadwy;** Mae diffyg mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth da yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth o agweddau eraill ar dlodi ac allgáu cymdeithasol. Er enghraifft, gall gyfyngu ar gyfleoedd i gamu ymlaen yn y gwaith a’r gallu i fanteisio ar addysg bellach, addysg a darpariaeth gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ieuenctid a thai fforddiadwy.
- **Allgáu digidol; Ansicrwydd bwyd:** Mae cynhwysiant digidol yn bwysig er mwyn manteisio ar ddarpariaeth trafnidiaeth sy’n ymateb i’r galw. Gall cysylltiadau trafnidiaeth da helpu i leihau ansicrwydd bwyd, gan ddarparu mynediad at fwy o ddewis a dewisiadau rhatach.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Trafnidiaeth gymunedol** | Da | Effeithiol |
| **Trafnidiaeth a rennir** | Gwan | Yn debygol o fod yn effeithiol |
| **Trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw** | Da | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Rhaglen Rhannu Lifft Green Raiteros yng Nghaliffornia

Mae'r fenter hon yn cynnig ateb gwyrdd, arloesol i symudedd mewn cymunedau gwledig llai breintiedig. Tyfodd y rhaglen o gynllun ffonio am lifft wedi'i hunandrefnu a gynhaliwyd gan aelodau o'r gymuned. Mae'n cynnig lifft, ar gyfradd sefydlog, i drigolion lleol (gweithwyr yn bennaf ond trigolion eraill hefyd) mewn cerbydau trydan wedi'u gyrru gan yrwyr gwirfoddol (a ddigolledir am y milltiroedd y byddant yn eu teithio). Mae'r rhaglen ar gael i drigolion drwy byrth cyfathrebu gwahanol (ffôn, ap, neu drwy ymweld â swyddfa Green Raiteros). Er ei fod yn ddull addawol, nid oes gwerthusiad cadarn o effaith y rhaglen ar anfantais o ran trafnidiaeth wedi'i gyhoeddi hyd yma.

### Astudiaeth achos: Gwasanaeth trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw

Profodd prosiect arddangos ar wasanaethau trafnidiaeth ymatebol yn Ewrop effeithiolrwydd gwasanaethau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i'r Galw sy'n seiliedig ar delemateg mewn nifer o wledydd. O dan systemau sy'n seiliedig ar delemateg, mae canolfannau dosbarthu cludiant yn rheoli systemau archebu a chadw ac yn gallu neilltuo teithwyr mewn ffordd ddynamig i gerbydau ac optimeiddio llwybrau. Gellir trefnu llwybrau o amgylch amrywiaeth o fannau aros gyda mwy neu lai o hyblygrwydd o ran y llwybr. Mae systemau lleoli cerbydau awtomataidd yn darparu gwybodaeth amser real am statws a lleoliad cerbydau. Canfuwyd dwy brif fantais economaidd: (1) y gallu i gefnogi gwasanaethau ar lwybrau galw isel a fyddai'n rhy ddrud wrth ddefnyddio gwasanaethau rheolaidd; (2) y gallu i arbed costau drwy ddarparu gwasanaeth o ddrws i ddrws i'r henoed.

# 8. Gwasanaethau ieuenctid

Mae gwasanaethau ieuenctid yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl ifanc i bontio i annibyniaeth, ac yn cynnig cyfle i ymyrryd yn gynnar os yw pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd ymdopi. Maent yn helpu i leihau allgáu cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â rhai agweddau ar dlodi. Gall mynediad at wasanaethau ieuenctid fod yn hollbwysig i bobl ifanc ddifreintiedig a thrwy sicrhau bod gwasanaethau'n rhai mynediad agored, gellir osgoi labelu a stigma. Fodd bynnag, mae toriadau mewn cyllid wedi rhoi gwasanaethau mynediad agored dan fygythiad. Mae gwasanaethau ieuenctid yn debygol o fod yn fwyfwy pwysig yn sgil y tarfu ar fywydau llawer o bobl ifanc o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws, sydd wedi effeithio ar eu proses o bontio i annibyniaeth.

## Camau gweithredu addawol

1. Mae **darpariaeth mynediad agored** yn hyrwyddo cynwysoldeb ac yn osgoi'r stigma sy'n aml yn deillio o dargedu gwasanaethau at y rhai mwyaf difreintiedig.

    - Mae arbenigwyr wedi mynegi pryder am y **pwysau cynyddol i fesur** a dangos effaith feintiol darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored, a all arwain at gamddehongli a diwygio niweidiol.

2. **Gall cyfranogiad ystyrlon ymhlith pobl ifanc** sy'n harneisio eu profiad ymarferol drwy eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ieuenctid arwain at welliannau i wasanaethau a manteision i bobl ifanc.

    Mae cyfranogiad ystyrlon yn gofyn am ymgysylltu gweithredol a dylanwad gwirioneddol, yn hytrach na phresenoldeb goddefol neu rolau symbolaidd.

    - Mae tystiolaeth o ansawdd da yn bodoli sy'n dangos bod cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau ieuenctid yn arwain at **sgiliau cymdeithasol gwell (effeithiolrwydd ac empathi),** a bod cyfleoedd i fod yn arweinydd neu i wneud penderfyniadau yn arwain at **fwy o deimladau o berchenogaeth ac ymrymuso a lefelau uwch o bresenoldeb**.

    - Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** wedi bod yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer newid, gan arwain at gynnwys pobl ifanc yn weithredol yn gynyddol mewn materion sy'n effeithio arnynt.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Anfantais o ran trafnidiaeth; Amgylchedd cymdogaeth:** Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn hanfodol i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid. Gall cynllunio cymdogaeth helpu i sicrhau gwasanaethau lleol a hygyrch.

- **Y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod:** Gall cymryd rhan mewn gwasanaethau ieuenctid roi'r cyfle i gynnig cymorth i bobl ifanc y gallai fod angen help arnynt i gael gwasanaethau a budd-daliadau.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Cyfranogiad ieuenctid** | Cryf (lled-arbrofol) | Effeithiol |
| **Gwasanaethau ieuenctid mynediad agored** | Cymysg (adolygiadau o dystiolaeth)<br><br>Gall canlyniadau asesiadau effaith meintiol amhriodol gael eu camddehongli ac arwain at ddiwygiadau niweidiol. | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau

Ymchwiliodd astudiaeth yn yr Unol Daleithiau i gyffredinrwydd ac effaith arferion gwneud penderfyniadau rhaglenni ieuenctid (e.e. gofyn i bobl ifanc helpu i benderfynu pa weithgareddau a gynigir). Cymerwyd y sampl o hap-dreial maes a gynhaliwyd ac roedd yn cynnwys data o 63 o raglenni cymunedol ac ar ôl ysgol wedi'u lleoli ar draws pedair talaith yn yr Unol Daleithiau (dwy yn y canol-orllewin, un yn y gogledd-ddwyrain, ac un yn y de-ddwyrain). Dangosodd y canlyniadau gysylltiadau cadarnhaol rhwng arferion gwneud penderfyniadau rhaglenni ieuenctid a chymhelliant ieuenctid i gymryd rhan mewn rhaglenni. Canfuwyd hefyd gysylltiadau cadarnhaol rhwng arferion gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd datrys problemau ieuenctid; effeithiolrwydd mynegiant; ac empathi. Roedd canfyddiadau ar gyfer datrys problemau ac empathi yn fwy amlwg ymhlith cyfranogwyr hŷn.



# 9. Camu ymlaen yn y gwaith

Mae cyfraddau cynyddol o dlodi mewn gwaith yn dangos nad yw gwaith yn aml yn ddigon i godi incwm aelwyd uwchlaw'r llinell dlodi. Gall camu ymlaen yn y gwaith helpu i leihau tlodi mewn gwaith, er y gall cynyddu oriau gwaith cyflogedig ar lefel aelwydydd a/neu haelioni budd-daliadau mewn gwaith fod yn bwysicach na mynd i'r afael â chyflog isel. Dylai dull effeithiol o gynyddu'r broses o gamu ymlaen gyfuno polisïau i gynyddu sgiliau y mae galw mawr amdanynt ymhlith gweithwyr â sgiliau is, mynd i'r afael â chyfyngiadau'r cyflenwad llafur a lleihau anghymhellion rhag camu ymlaen yn y system treth a budd-daliadau. Mae galluogi mathau o raglenni marchnad lafur gweithredol, sy'n mynd y tu hwnt i symud pobl yn gyflym i mewn i waith, yn helpu i gynyddu cyfraddau cadw a dyrchafiad. Disgwyli i amodoldeb mewn gwaith ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol ar gyflog isel gynyddu'r ysgogiad ar gyfer polisïau o'r fath. Mae rhai canlyniadau addawol o'r Unol Daleithiau yn awgrymu bod datblygu gweithlu sector-benodol yn un dull llwyddiannus posibl, ond mae angen tystiolaeth werthuso gadarnach.

## Camau gweithredu addawol

1. Yn achos pobl ddi-waith, mae gan **fathau 'galluogol' o ysgogi**, megis hyfforddiant, fwy o botensial i arwain at gamu ymlaen na mathau 'awdurdodol' (h.y. sy'n canolbwyntio ar y defnydd o alwadau ysgogi ar gyfranogwyr), megis monitro a sancsiynau.
    - Dengys **tystiolaeth werthuso**, sy'n edrych ar gyfnod hwy, fod rhaglenni hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith yn tueddu i berfformio'n well na mathau awdurdodol o ysgogi. Fodd bynnag, mae hyfforddiant o ansawdd da yn fwy costus yn y byrdymor, ac mae angen i lunwyr polisïau nodi pa gyrsiau i'w cynnig neu eu cefnogi.
2. Mae **mentrau datblygu gweithlu sector-benodol**, sy'n defnyddio dull dau gwsmer (gweithio gyda chyflogwyr yn ogystal â gweithwyr), yn dangos effeithiau hirdymor cadarnhaol ar enillion a buddion net i gyfranogwyr, llywodraethau a chymdeithas yn ehangach.
    - Mae'r **sylfaen dystiolaeth gyfredol yn dibynnu ar astudiaethau ar raddfa fach o'r Unol Daleithiau.** Mae angen deall mwy ynghylch pa raglenni sy'n gweithio a pham. Mae'r mentrau hyn hefyd yn dibynnu ar gyfryngwyr cyflogaeth profiadol ac mae angen rhoi ystyriaeth briodol i'w trosglwyddedd i Gymru.
3. Bydd **amodoldeb mewn gwaith** ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol sy'n ennill cyflog isel yn cynyddu ffocws polisi ledled y DU ar gamu ymlaen mewn gwaith.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Addysg bellach a sgiliau:** Gall buddsoddi mwy mewn addysg bellach o ansawdd uchel helpu i gynyddu cyflogau ymhlith pobl â sgiliau is a chynnig cyfleoedd i gamu ymlaen.
- **Anfantais o ran trafnidiaeth; Cyflenwad tai fforddiadwy; Amgylchedd cymdogaeth; Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar:** Gall ble mae pobl yn byw mewn perthynas â chyfleoedd gwaith o ansawdd da, a mynediad drwy gysylltiadau trafnidiaeth da (gan gynnwys mynediad i addysg bellach a chyrsiau hyfforddi a gofal plant) fod yn ffactorau pwysig sy'n galluogi dilyniant mewn gwaith.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Rhaglenni marchnad lafur weithredol** (yn enwedig ffurfiau 'galluogol', fel hyfforddiant) | Cryf (dadansoddiad metalefel o led-arbrofol) | Effeithiol |
| **Datblygu gweithlu sector-benodol** | Cryf (arbrofol) | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: WorkAdvance

Rhaglen datblygu'r gweithlu sector-benodol yn yr Unol Daleithiau oedd WorkAdvance, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2011 a mis Mehefin 2013. Ei nod oedd helpu unigolion incwm isel i symud ymlaen yn y farchnad lafur drwy fuddsoddi mewn addysg a sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â chyflogaeth mewn sectorau lle mae galw mawr. Mae'r fenter yn seiliedig ar raglen hyfforddi sgiliau sy'n seiliedig ar alw ac yn canolbwyntio ar swyddi sydd â llwybrau gyrfa adnabyddadwy. Cafodd yr arddangosiad ei gyflwyno fel hap-dreial rheoli a'i gyflwyno gan bedwar cyfryngwr cyflogaeth profiadol sy'n gweithio mewn sectorau gwahanol. Canfu'r gwerthusiad effeithiau cadarnhaol ystadegol arwyddocaol ar enillion cyfartalog heb unrhyw effaith ar gyfraddau cyflogaeth. Canfu dadansoddiad cost a budd fuddion net cadarnhaol i gyfranogwyr, y llywodraeth a'r gymdeithas ehangach.

### Astudiaeth achos: Ymyriadau cyflogaeth sector-benodol

Dengys tystiolaeth o hap-dreial rheoli yn yr Unol Daleithiau y gall rhaglenni ymyriadau cyflogaeth sector-benodol a drefnir gan y trydydd sector ('di-elw') gael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau cyflogaeth ac enillion. Roedd y rhaglen yn cynnig hyfforddiant a gweithgareddau cymorth sector-benodol (parodrwydd am swydd, mentora, sgiliau bywyd, trafnidiaeth a gofal plant), i weithwyr di-waith neu sgiliau isel. Nid oedd canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar raglen hyfforddi na gweithgareddau cymorth penodol. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiadau'n ymwneud â chamu ymlaen yn y gwaith yn unig gan fod llawer o'r cyfranogwyr yn ddi-waith ar ddechrau'r rhaglen.

# 10. Addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar

Gall addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar gael effaith gadarnhaol o ran lleihau tlodi drwy ddileu cyfyngiadau cyflenwad llafur teuluoedd a hyrwyddo amrywiaeth eang o ganlyniadau plant. Er mwyn i addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar fod yn effeithiol, dylid mynd i'r afael ag ansawdd y ddarpariaeth ac anghydraddoldebau o ran mynediad. Dengys tystiolaeth ryngwladol fod hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar a rheoleiddio gofalus, ac ystyrir mai mesurau fel gwasanaethau cyffredinol (yn hytrach na gwasanaethau wedi'u targedu), lleoedd gwarantedig a chymorthdaliadau hael yw'r rhai mwyaf effeithiol o ran cau bylchau.

O safbwynt lleihau tlodi, mae polisïau addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn ategu polisïau nawdd cymdeithasol a chyflogaeth. Ar y naill law, gall argaeledd addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar fforddiadwy wella cymhellion i weithio, ond gall rhwystrau fodoli o hyd, a gall cynllun y system nawdd cymdeithasol gymell pobl i beidio â gweithio mewn gwirionedd (e.e. ar gyfer ail enillwyr). Ar y llaw arall, oherwydd dangosir bod incwm yn cael effaith uniongyrchol ar ganlyniadau plant, gall annigonolrwydd trosglwyddiadau arian parod danseilio ymdrechion i hyrwyddo cyfleoedd plant a'u cyfleoedd bywyd drwy addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar.

## Camau gweithredu addawol

1. Gan fod y rhai sy'n well eu byd yn defnyddio ac yn elwa ar wasanaethau addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar mewn modd anghymesur – gan gyfyngu ar effaith addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ar dlodi ac allgáu cymdeithasol – dylai blaenoriaethau ganolbwyntio ar y canlynol:

    - Diwygio'r cynnig presennol o 30 awr yr wythnos yng ngoleuni elfennau a nodwyd yn y dystiolaeth ryngwladol sy'n fwy tebygol o gynyddu nifer y teuluoedd difreintiedig sy'n manteisio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, gan ystyried ehangu a chynnwys **lleoedd gwarantedig, cymorth i rieni sy'n gweithio a rhieni nad ydynt yn gweithio, a ffioedd wedi'u graddio yn ôl incwm a nifer y plant**.
    - Dylid asesu **effaith ddosbarthiadol diwygiadau diweddar**, ac amlygu difuddiant posibl.
    - Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r hawl estynedig yn rhoi pwysau ar ddarparwyr, sy'n dibynnu ar oriau a ffioedd ychwanegol gan blant iau i dalu costau. Gall hyn waethygu gwahaniaethau o ran mynediad. Gellid ystyried **ehangu allgymorth y cynllun Dechrau'n Deg neu ddiwygio ei ffocws daearyddol**.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau pwysig i greu dull cyfannol mewn perthynas ag addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, gan gydnabod pwysigrwydd integreiddio addysg a gofal yn fwy, a fframwaith ansawdd unedig. Mae cynlluniau i wella sgiliau a safonau'r gweithlu addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar yn mynd rhagddynt. Gellir cefnogi'r ymdrechion hyn drwy:

- **Safonau cymwysterau unedig** a llwybrau i gydnabod profiad gwaith a chymwyseddau a gaffaelwyd yn flaenorol.
- **Trin y sector a gynhelir ac nas cynhelir mewn ffordd unedig**.
- **Sicrhau bod safonau uwch yn cydredeg â statws uwch** – o ran cyflog, amodau gwaith a chydnabyddiaeth broffesiynol.
- **Cynnwys llwybrau wedi'u haddasu ar gyfer cynorthwywyr,** sy'n cynrychioli cyfran fawr o'r gweithlu ond sydd â llai o bosibiliadau o ran ennill cymwysterau a chamu ymlaen nag ymarferwyr craidd.
- **Casglu a dadansoddi data am y gweithlu** (e.e. cefndir economaidd-gymdeithasol), gan gynnwys cynorthwywyr, er mwyn hwyluso'r broses o amlygu rhwystrau i ddatblygiad proffesiynol a darparu sail ar gyfer dyfeisio atebion.

## *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Anfantais o ran trafnidiaeth:** Mae fforddiadwyedd, argaeledd a hygyrchedd trafnidiaeth yn cyfrannu at rwystrau i gael gwasanaethau addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar.
- **Camu ymlaen yn y gwaith** Mae mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn bwysig er mwyn lleihau cyfyngiadau ar y cyflenwad llafur sy'n rhwystr allweddol i gamu ymlaen.



## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Polisïau ar gynyddu nifer y rhai sy’n manteisio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar** (gwella fforddiadwyedd ac argaeledd) | Cryf | Cymysg (ffactorau cyfyngol yw cyfranogiad anghyfartal yn y farchnad lafur, rhyngweithio â'r systemau treth a budd-daliadau sy'n cynhyrchu anghymhellion) |
| **Polisïau i wella ansawdd darpariaeth addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar** (agweddau strwythurol a phroses ar ansawdd) | Cryf | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Cynyddu nifer y rhai sy’n manteisio ar addysg a gofal plantyn y blynyddoedd cynnar yn Korea

Mae gan system Korea gymysgedd o wasanaethau cyhoeddus a phreifat a chyfuniad o wasanaethau gofal dydd mewn canolfannau a gwasanaethau gwarchod plant yn y cartref (wedi'u targedu at blant rhwng tri mis a thair oed). Mae dull gwasanaeth 'cofleidiol' yn cynnwys cymorth cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gwarchod plant 'y tu allan i oriau', sy'n arbennig o bwysig i rieni ag oriau gwaith anrhagweladwy a gofynion ad hoc. Rhoddir blaenoriaeth i deuluoedd tlawd, teuluoedd ag oedolion sy'n chwilio am waith a theuluoedd mawr sydd â phlant ifanc. Mae Korea wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar (1% o CMC). Mae costau gofal plant parod ymhlith yr isaf yng ngwledydd yr OECD.

### Astudiaeth achos: Darpariaeth addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar wledig yn Lithwania

Mae cynyddu nifer y rhai sy’n manteisio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd gwledig yn amcan polisi allweddol yn Lithwania (Kvieskienė a Misiūnienė, 2011). Cyflwynwyd canolfannau amlswyddogaethol (daugiafunkcis centras) i ddarparu mynediad at amrywiaeth o wasanaethau a ddefnyddir gan deuluoedd a phlant o dan un strwythur rheoli. Mae’r gwasanaethau'n amrywio o ofal iechyd i ofal dydd, addysg cyn-gynradd a chynradd, a chyfleusterau cymunedol. Mae'r canolfannau hyn yn hwyluso mynediad at arbenigwyr sy'n gweithio mewn sectorau gwahanol ac yn gwella'r cydgysylltiad rhwng gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnig y cyfle i sicrhau mwy o gysondeb rhwng addysg cyn-gynradd a chynradd. Cefnogir mynediad at ganolfannau amlswyddogaethol ymhellach gan ymgyrchoedd trafnidiaeth gyhoeddus a gwybodaeth penodol, gan gynnwys ymgyrchoedd am werth addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Canfu asesiad gan yr OECD (2017) fod y canolfannau amlswyddogaethol hyn yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran cynyddu nifer y rhai sy’n manteisio ar addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar mewn ardaloedd gwledig, ond erys rhwystrau o hyd, ac mae’r gwahaniaethau trefol/gwledig yn parhau i fod yn fawr.

# 11. Addysg bellach a sgiliau

Mae gan y sector hwn o'r system addysg lawer i'w gyfrannu at strategaeth i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, ac mae tystiolaeth dda y gall addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16 a dysgu oedolion wella canlyniadau cyflogaeth a chynnig cyfleoedd hanfodol i ddysgwyr a gweithwyr difreintiedig gamu ymlaen. Mae systemau gwahanol yn dangos gallu gwahaniaethol i gyflawni'r manteision hyn. Er mwyn i'r sector addysg bellach (AB) feithrin cynhwysiant, mae elfennau allweddol yn cynnwys strwythurau addysgol hyblyg ac agored (e.e. sy'n cysylltu AB ac addysg uwch (AU), ac o fewn AB rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol) a llwybrau safonedig sy'n arwain at lefelau digon uchel o gymwysterau, gyda dulliau sicrhau ansawdd cydnabyddedig.

## Camau gweithredu addawol

Gall sicrhau **mwy o barch cydradd rhwng addysg academaidd a galwedigaethol** gefnogi rôl AB o ran gwella cyfleoedd bywyd grwpiau difreintiedig. Fodd bynnag, mae angen newidiadau systemig, gan gynnwys:

1. **Ailgydbwyso adnoddau rhwng AB ac AU a rhwng astudiaeth lawn-amser a rhan-amser.**
    - Mae angen i ddulliau cyllido gefnogi'r broses o gaffael cymwysterau lefel uwch (e.e. lefelau 4 a 5), ar yr un pryd â chynnal hyblygrwydd ac opsiynau a all gefnogi dysgwyr difreintiedig yn well.
2. Gall cysylltiadau o fewn AB (e.e. rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol), a rhwng AU ac AB, bontrio'r bwlch rhwng sectorau.
    - **Gall system integredig gyflwyno'r didwylledd a'r athreithedd sydd eu hangen i gynnwys mwy** o grwpiau difreintiedig. Gall prosesau syml a gwasanaethau cyngor a chymorth digonol helpu dysgwyr sy'n defnyddio'r system ymhellach.
3. Mae llwybrau cymwysterau sy'n cynnig y cyfle i feithrin **cymwyseddau galwedigaethol eang** yn gwella'r gallu i drosglwyddo sgiliau, a gallant helpu i wneud addysg alwedigaethol yn berthnasol i amrywiaeth o feysydd galwedigaethol.
4. Gellir gwella cynwysoldeb rhaglenni a phrentisiaethau ôl-16 drwy ddiwygio **gofynion mynediad** (e.e. sy'n gysylltiedig â graddau penodol yng nghyfnod allweddol 4), gan fod perygl y gallai'r system gyfredol eithrio'r rhai sy'n fwy tebygol o elwa.
5. Mae **dulliau sicrhau ansawdd** yn hanfodol er mwyn ymateb i bryderon cyflogwyr a dysgwyr ynglŷn â pherthnasedd, ansawdd a natur drosglwyddadwy cymwysterau galwedigaethol, sy'n dylanwadu ar gyfranogiad defnyddwyr ac ymgysylltiad cyflogwyr.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Camu ymlaen yn y gwaith:** Gall addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol o ansawdd da a ddarperir drwy AB, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion feithrin sgiliau uwch a gwella cyflogadwyedd. Gall hefyd gynyddu'r cyfleoedd i gynnal cyflogaeth barhaus, ennill mwy a chamu ymlaen.
- **Allgáu digidol:** Bydd digideiddio'n arwain at newidiadau mawr yn y galw am sgiliau – gall cynhwysiant digidol hybu'r broses o gaffael sgiliau ymhlith y rhai llai difreintiedig.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Polisïau sy'n ymwneud â chynllunio systemau** (e.e. modelau ysgol/seiliedig ar waith; System Ddeuol) | Cryf | Effeithiol (mwy cymysg ar gyfer manteision cyflogaeth hirdymor) |
| **Polisïau sy'n hybu cyfranogiad mewn dysgu oedolion** | Da | Cymysg (oherwydd cyfranogiad anghyfartal) |

### Astudiaeth achos: Meysydd galwedigaethol yn system ddeuol addysg a hyfforddiant galwedigaethol

Mae system ddeuol addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn cynnig hyfforddiant sy'n cyfuno hyfforddiant/prentisiaethau mewn cwmni ac addysg mewn ysgol alwedigaethol. Mae meithrin cymwyseddau eang mewn system ddeuol yn agor amrywiaeth o feysydd galwedigaethol i fyfyrwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol y tu hwnt i alwedigaethau masnach a chrefft, gan gynnwys prentisiaethau sy'n arwain at swyddi coler gwyn (e.e. ym maes bancio, manwerthu a gweinyddu cyhoeddus). Yn y Swistir, y tair galwedigaeth brentisiaeth fwyaf poblogaidd yw busnes a gweinyddu, manwerthu ac adeiladu a pheirianneg sifil. Dyma un o'r nodweddion y mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn sail i lwyddiant system ddeuol o ran gwella parch cydradd a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau cyflogaeth.

### Astudiaeth achos: Cyfranogiad busnesau bach a chanolig yn Norwy

Gall cymorth sefydliadol feithrin cyfranogiad busnesau bach a chanolig (BBaChau) mewn prentisiaethau drwy gynllunio a darparu hyfforddiant. Gall siambrau masnach greu eu canolfannau hyfforddi eu hunain sy'n ategu'r hyfforddiant a roddir yn y gweithle mewn BBaChau. Yn Norwy, mae mecanweithiau cydweithredu yn galluogi BBaChau i weithredu fel rhwydwaith ac i ddatblygu mentrau cydweithredol rhwng cwmnïau lleol. Gall y rhain ganolbwyntio ar un crefft, sbectrwm ehangach o fasnachau cysylltiedig (e.e. masnachau diwydiannol neu yn y sector gwasanaeth), neu fodelau amlfasnach (mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd â chrynodiad rhanbarthol isel o gwmnïau). Er y dangoswyd bod y mentrau hyn yn llwyddo i gefnogi cyfranogiad BBaChau, megis dechrau y mae asesiadau cyffredinol o'u canlyniadau.

### Astudiaeth achos: Hyblygrwydd a dysgu modiwlaidd yn Nenmarc

Dengys tystiolaeth y gall systemau addysg agored a hyblyg gefnogi dysgwyr difreintiedig a hŷn. Yn Nenmarc, mae modiwleiddio dysgu oedolion yn cynyddu hyblygrwydd, gan alluogi mwy o oedolion i ennill cymwysterau. Gall dysgwyr ennill cymwysterau ffurfiol drwy gyfuno modiwlau o fathau gwahanol o ddarpariaeth dysgu oedolion: mae hyn yn cynnwys rhaglenni marchnad lafur gweithredol, rhaglenni addysg sylfaenol, addysg uwch, addysg alwedigaethol a hyd yn oed rhaglenni addysg anffurfiol.

# 12. Amgylchedd y gymdogaeth

Gall crynhoad daearyddol o anfantais arwain at allgáu dwys, ac mae gan bolisïau sy'n seiliedig ar le rôl bwysig i'w chwarae, gan effeithio ar amrywiaeth o agweddau ar ansawdd bywyd pobl a phrofiadau o gyfranogiad economaidd, cymdeithasol a dinesig. Mae cyfyngiadau'r mathau hyn o atebion lleol mewn perthynas â lleihau tlodi yn awgrymu na ddylid eu hystyried ar wahân i bolisi cenedlaethol a rhanbarthol ategol ynghylch, er enghraifft, tai, cyflogaeth, addysg a nawdd cymdeithasol. Er mwyn sicrhau bod y rheini sydd dan anfantais yn cael budd o bolisïau adfywio lleol, mae angen pennu amcanion clir mewn perthynas â thegwch a chynhwysiant cymdeithasol, ynghyd â mathau digonol o waith gwerthuso a monitro – ni ellir disgwyl i dwf a ffyniant 'dreiddio i lawr' yn naturiol.

## Camau gweithredu addawol

1. **Mae angen amcanion clir mewn perthynas â lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol** er mwyn i fanteision ymyriadau yn y gymdogaeth (o ganlyniad i greu swyddi, hybu'r economi leol, gwell cyfranogiad cymunedol a gwell amgylcheddau ffisegol) gyrraedd y rhai mwyaf difreintiedig.
    - Dylai'r amcanion hyn osgoi ymdrechion adfywio sy'n gwaethygu allgáu cymdeithasol ymhellach a dadleoli'r dinasyddion a'r aelwydydd mwyaf difreintiedig (er enghraifft drwy foneddigeiddio).
    - Mae dulliau 'seiliedig ar weithgareddau' sy'n ceisio adfywio canol trefi drwy greu amgylcheddau cymysg yn addawol, ond nid ydynt yn cael eu gwerthuso'n gadarn ar hyn o bryd. Dylid cynllunio gwaith **gwerthuso** ochr yn ochr ag ymyriadau, a ddylai gynnwys amserlenni realistig (e.e. sy'n gwahaniaethu rhwng canlyniadau byrdymor a hirdymor), a chanolbwyntio nid yn unig ar brosesau ac allbynnau, ond hefyd ar **asesu canlyniadau ac effeithiau dosbarthiadol ar dlodi, ac amcangyfrif 'gwerth cymdeithasol'**.
2. Gall **dulliau a arweinir gan y gymuned** liniaru risgiau boneddigeiddio drwy roi anghenion a phrofiadau'r gymuned leol wrth wraidd gwaith datblygu, **ar yr amod eu bod yn llwyddo i sicrhau ymgysylltiad effeithiol a chynhwysol**.
    - Er mwyn sicrhau cynhwysiant gwirioneddol, mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol â'r rhai mwyaf difreintiedig yn y gymuned a chanolbwyntio ar ddeall rhwystrau i ymgysylltu a mynd i'r afael â nhw.

### *Cysylltiadau â meysydd polisi eraill*

- **Allgáu digidol:** Mae llawer o strategaethau ar gyfer adfywio trefol wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar ysgogi manteision posibl digideiddio. Mae hyn yn gofyn am strategaethau sy'n cefnogi cynhwysiant digidol neu a allai atgyfnerthu anghydraddoldebau presennol.
- **Dyled aelwydydd; Ansicrwydd bwyd; Tlodi tanwydd:** Gall strategaethau adfywio darfu ar rwydweithiau cymorth anffurfiol (teuluoedd, ffrindiau, cymdogion) sy'n chwarae rhan hollbwysig wrth liniaru natur agored i niwed aelwydydd tlawd.

## Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Dulliau o'r brig i lawr, sy'n seiliedig ar le** (e.e. dulliau cynllunio a gweithredu sy'n gysylltiedig â datblygu tai, cymorth busnes, darparu gwasanaethau cymdeithasol, datblygu'r gweithlu) | Cymysg (ansawdd amrywiol, yn anaml yn canolbwyntio ar effeithiau ar dlodi) | Cymysg (canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag amrywiaeth o ddimensiynau ond effeithiau negyddol hefyd) |
| **Dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny, a arweinir gan y gymuned** | Gwerthusiad gwan ar y cyfan | Effeithiol |

### Astudiaeth achos: Amgylcheddau cymysg o'r gwaelod i fyny yn Ffrainc

Mae dinas Lille wedi mabwysiadu nifer o ddulliau o'r gwaelod i fyny o adnewyddu cymdogaethau, gan ganolbwyntio'n ddiweddar ar amgylcheddau 'cymysg' a 'seiliedig ar weithgareddau'. Fe'i hystyrir yn enghraifft o arfer da, er enghraifft gyda mentrau arloesol ar gyfer adfywio canol dinasoedd sydd, y tu hwnt i gynllunio hirdymor, hefyd yn ysgogi camau gweithredu uniongyrchol drwy ddefnyddio siopau ac adeiladau adfeiliedig i annog entrepreneuriaid lleol a sefydliadau cymunedol i sefydlu siopau a busnesau dros dro, yn ogystal â rhannu sgiliau, cyfleusterau ailgylchu, a mannau cyfarfod cymunedol. Mae'r mentrau hyn yn seiliedig ar waith cynllunio a syniadau cyfranogol lleol ac yn ysgogi ymwelwyr a rhyngweithio rhwng trigolion a chymunedau lleol.

### Astudiaeth achos: Rhwydweithiau dinesig a chyfnewid gwybodaeth yn Ewrop

Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer o fentrau Ewropeaidd wedi creu rhaglenni cyfnewid a dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau o ddinasoedd a threfi i drosglwyddo a lledaenu arferion da sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy a chynhwysol. Mae rhaglenni fel URBACT yn cefnogi'r broses o rannu dulliau adfywio dinasoedd a threfi sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a gwaith cynllunio a darparu cyfranogol, a'u rhoi ar waith. Mae gwerthusiadau o effaith y rhaglen gyffredinol yn dangos bod y dull gweithredu wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol mewn perthynas â'r amgylchedd ffisegol, troseddu, mentrau meithrin gallu cymunedol a chreu swyddi. Rhoddwyd llawer llai o bwyslais ar asesu effeithiau ar dlodi. Mae hyn yn dangos, er bod gan ddinasoedd a threfi lawer i'w ennill wrth gymryd rhan yn y mentrau cydweithredol hyn, y dylid rhoi sylw i werthuso eu heffaith ddosbarthiadol.

# Casgliad

Mae tystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd y 12 maes polisi hyn yn dangos y gallent fod yn elfennau pwysig o strategaeth gwrth-dlodi ac allgáu cymdeithasol lwyddiannus i Gymru. Nid yw'n ddetholiad cynhwysfawr o bolisïau a dylid ystyried rhai eraill, er enghraifft polisïau sy'n mynd i'r afael ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd gwael; mynediad at ofal cymdeithasol fforddiadwy; lleihau troseddu; cyfiawnder troseddol ac adsefydlu effeithiol; lleihau digartrefedd; a gwella ansawdd swyddi, yn enwedig ym mhen isaf y farchnad lafur. At hynny, mae cysylltiad cynhenid rhwng anghydraddoldeb a thlodi, ac mae lefelau uchel o anghydraddoldeb yn ei gwneud hi'n anos mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Felly, mae angen i unrhyw strategaeth gadw hyn mewn cof. Dyma'r pedwar prif ganfyddiad cyffredinol:

1. Mae cysylltiad sylfaenol rhwng sawl maes polisi (e.e. dyled aelwydydd; tlodi tanwydd; ansicrwydd bwyd; anfantais o ran trafnidiaeth; cyflenwad tai fforddiadwy), a bydd angen **strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â 'ffactorau sbarduno uwch', fel incwm isel.** Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y tu hwnt i ymyriadau penodol mewn maes polisi penodol (fel gwasanaethau cyngor ar ddyledion a dileu dyled neu lythrennedd ariannol mewn perthynas â dyled aelwydydd; darpariaeth gymunedol mewn perthynas ag ansicrwydd bwyd), bod angen strategaethau ehangach i gynyddu a gwneud y mwyaf o incwm gwario aelwydydd difreintiedig er mwyn gwneud cynnydd yn y meysydd unigol.

- Dylid asesu cydgysylltiadau a synergeddau rhwng yr offerynnau polisi sydd ar gael ym mhob maes polisi. Gellir gweld y math o feddylfryd amlsector cynhwysfawr sydd ei angen i wneud hyn yn strategaeth Tlodi plant: cynllun gweithredu pwyslais ar incwm Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020), er enghraifft. Mae'r posibilrwydd o sefydlu 'System Budd-daliadau i Gymru', yn unol â'r hyn a gynigiwyd gan Sefydliad Bevan, yn enghraifft arall a allai helpu i fynd i'r afael â heriau cydgysylltiedig (Sefydliad Bevan, 2020).

- Mae gwasanaethau amlasiantaeth 'siop un stop' yn y gymuned, sy'n hybu'r broses o gydgysylltu gwasanaethau ac yn darparu cymorth amrywiol, yn ddefnyddiol yn wyneb yr amrywiaeth o anghenion a gwendidau cydgysylltiedig y gall pobl eu hwynebu. Dengys tystiolaeth fod y rhain ar eu mwyaf effeithiol pan na fyddant yn creu stigma a phan fyddant yn ysgogi cydberthnasau dibynadwy yn y gymuned sy'n helpu i ehangu eu cyrhaeddiad.

- Ar draws meysydd polisi, mae'n amlwg mai her sy'n codi dro ar ôl tro yw rôl leihaol system nawdd cymdeithasol y DU o ran bod yn rhwyd ddiogelwch effeithiol rhag tlodi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau sydd eu hangen i newid elfennau allweddol o'r system (e.e. mewn perthynas â chynllunio Credyd Cynhwysol neu'r trothwy dau blentyn), ond gall cydnabod eu diffygion arwain at welliannau o ran y cymorth a'r gefnogaeth y gellir eu darparu drwy offerynnau polisi amgen.

2. **Ceir bylchau yn y dystiolaeth a thuedd i lunio gwerthusiadau gwan mewn nifer o feysydd polisi, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau lleol.**

    - Pan all yr ymyriadau hyn gyflawni amrywiaeth o ddibenion y tu hwnt i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, mae'n arbennig o bwysig bod gwerthusiadau'n gwneud mwy nag asesu allbynnau (e.e. nifer yr atgyfeiriadau, llwyth achosion, ac ati) a’u bod yn canolbwyntio mewn modd effeithiol ar yr effaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddi sut y gallai hyn effeithio ar grwpiau difreintiedig gwahanol (e.e. pobl ag anableddau, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, rhieni sengl, pobl sy'n gadael gofal). Mewn rhai meysydd, efallai y byddai'n fwy priodol amcangyfrif gwerthoedd cymdeithasol yn hytrach nag asesiadau effaith meintiol (e.e. yn achos trafnidiaeth gymunedol a gwasanaethau ieuenctid mynediad agored).

3. Mewn nifer o feysydd, gall **cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer rhannu data** gyfrannu at waith amlasiantaeth, hybu synergeddau, symleiddio prosesau gweinyddol a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i’w cael. Ar yr un pryd, mae angen meithrin dealltwriaeth o brofiadau ymarferol hawlwyr a defnyddwyr er mwyn deall y rhwystrau i fynediad a wynebir gan grwpiau gwahanol (ac felly'r amrywiaeth o opsiynau a dewisiadau amgen sydd eu hangen i sicrhau cynhwysiant).

4. Mewn nifer o feysydd polisi (e.e. allgáu digidol, gwasanaethau ieuenctid, amgylchedd y gymdogaeth), **mae dulliau cyfranogol yn dod i'r amlwg fel ffordd o wella llwyddiant ymyriadau a rhaglenni o ran diwallu anghenion pobl a mynd i'r afael â heriau ar lawr gwlad.** Mae sicrhau cyfranogiad dilys ac ystyrlon yn golygu cefnogi cyfranogiad a fydd yn cael dylanwad gwirioneddol, yn hytrach na’i fod yn bresenoldeb goddefol neu’n symboleiddiaeth yn unig. Mae hefyd yn golygu cydnabod bod dinasyddion tlawd a difreintiedig yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau i gyfranogiad, felly bydd angen i strategaethau ymgysylltu effeithiol ystyried cyfansoddiad a dynameg y gymuned. Gall dim ond 'agor' mannau trafod arwain at orgynrychiolaeth ymhlith lleisiau sydd eisoes yn ddylanwadol, gan fethu â chreu cyfranogiad sy’n wirioneddol gynhwysol.



# Cyfeirnodau


Sefydliad Bevan. (2020). **Yr achos dros system fudd-daliadau i Gymru** Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. Adalwyd o**: https://www.bevanfoundation.org/resources/the-case-for-a-welsh-benefits-system/**

Levitas, R., Pantazis, C., Fahmy, E., Gordon, D., Lloyd-Reichling, E., a Patsios, D. (2007). **The multi-dimensional analysis of social exclusion**. Bryste: Prifysgol Bryste.

Llywodraeth Cymru. (2020). **Tlodi plant: cynllun gweithredu pwyslais ar incwm 2020 i 2021.** Adalwyd o: **https://llyw.cymru/tlodi-plant-cynllun-gweithredu-pwyslais-ar-incwm-2020-i-2021-html**


# Awduron yr Adroddiad


Mae **Dr Irene Bucelli** yn swyddog ymchwil yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

**Dr Abigail McKnight** yw Cyfarwyddwr y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol ac mae'n Gymrawd Ymchwil Proffesiynol Cyswllt yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc/Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd
UKRI
Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru
Welsh Government